

CYNGOR BRO LLANLLWNI.

Cynhaliwyd y Cyfarfod yn Neuadd Gymunedol Llanllwni, nos Lun 08 Gorffennaf am 8.00yh.

AGENDA

Roedd y Clerc wedi rhoi poster yn y Swyddfa Bost cyn y cyfarfod.

Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod gan y cadeirydd. Estynwyd llongyfarchiadau i Ysgol Gynradd Llanllwni am ennill y wobwr rasio ceir. Cafwyd gwybodaeth fod y disgyblion wedi gwneud print 3D a chreu car o blastig wedi ei doddi. Roedd wyth Ysgol arall wedi cystadlu.

Llongyfarchiadau hefyd i Alwena Mair Owen (merch y Clerc) am ennill y gystadleuaeth Alaw Werin yn Eisteddfod yr Urdd Caerdydd 2019, ddiwedd Mis Mai. Mae Alwena, yn ogystal, wedi ennill taith i gynrychioli Cymru a chanu yn yr Wyl Gymreig yn Disneyland, Paris ddechrau Mis Mawrth 2020.

Y CAE CHWARAE

Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf gan Eric Davies. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi ar y cae chwarae.

Roedd y Clerc wedi danfon lluniau at Kangaloos i ddangos sut yr oedd y toiledau wedi eu gosod eleni rhag ofn y byddai fandaliaeth yn digwydd yn y dyfodol.

Trafodwyd symud y postyn trydan yn y cae chwarae. Penderfynwyd ceisio rhagor o wybodaeth.

Penderfynwyd anfon llythyr o ddiolch at Lyn Jones am dorri porfa'r Cae Chwarae mor raenus cyn y diwrnod hwyl,

Roedd angen ffensio clawdd y Cae Chwarae ar ôl torri'r cloddiau ym mis Hydref.

Roedd cynllun wedi'i baratoi yn dangos pa adnoddau oedd eu hangen.

Roedd y Clerc wedi danfon ebost at y Cynghorwyr ynglŷn â'r capiau du oedd wedi dod i ffwrdd o'r offer chwarae a phenderfynwyd archebu'r capiau du.

Diolchwyd i'r Cyngor Bro am y rhodd ariannol at y gwobrau ar y diwrnod yn ogystal â chynorthwyo yn y fynedfa yn ystod y dydd.

GWEFAN LLANLLWNI

Roedd adroddiad o gyfarfod mis Mai ar y wefan ac wedi ymddangos yn 'Clonc' a 'Clecs Bro Cader'.

CYNGOR SIR CAERFYRDDIN:

Mae Hyfforddiant Côt Ymddygiad i'w gynnal yn Llanelli ar 10 Gorffennaf ac yna yng Nghaerfyrddin ar 16 Gorffennaf am 6yh.

CAIS AM GRANT LLWYBRAU DIOGEL MEWN CYMUNEDAU

Roedd y Clerc wedi derbyn y ffurflenni priodol.

TORRI PORFA AR YR A485:

Danfonwyd llythyr at Gyngor Sir Gâr i ddatgan nad oedd safon torri cloddiau eleni ddim yn dderbyniol, yn enwedig ger Pentop lle mae yn amhosib gweld i gyfeiriad Gwarallt cyn troi am Landysul.

EISTEDDFOD YR URDD, LLANYMDDYFRI 2021

Mae pwyllgor wedi ei sefydlu yn Llanfihangel-ar-arth a Llanllwni i godi arian at yr eisteddfod.

Penderfynwyd cefnogi: Bobath

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni ar 09 Medi 2019 am 8.00yh.